



**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**



Ffôn/Tel: 01248 713431
Epost/Email: pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk
Safle'r Rhynggrwyd/Website: <http://ysgolllandegfan.cymru/index.html>
Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Cylchlythyr 1 – Medi 2018

Dyma gylchlythyr cyntaf y flwyddyn addysgol. / Here is our first newsletter of 2018-19

Prif ddisgyblion yr Ysgol eleni	Head pupils for this academic year
<p>Yn dilyn areithiau cynhwysfawr gan holl aelodau o flynyddoedd 6 ac yn dilyn pleidlais agos gan ddisgyblion yr Ysgol, penderfynwyd ar y disgyblion canlynol fel ein Prif Ddisgyblion eleni.</p> <p>Holly Roberts Orlaith Jones Meilir Jones Grace Roberts Libbie Hughes</p> <p>Pob lwc i chi gyd yn eich rôl.</p>	<p>Following comprehensive speeches by year 6 and a close vote by the pupils of the school, the following were elected as head pupils for this academic year.</p> <p>Holly Roberts Orlaith Jones Meilir Jones Grace Roberts Libbie Hughes</p> <p>Good Luck to you all in your new roles.</p>

Capteiniaid Llysoedd	House Captains
<p>Ynghyd â'r uchod, bu hefyd pleidleisiau agos i bwy fyddai'n cynrychioli ein llysoedd eleni. Dyma chi y canlyniadau. Bu ganddynt cryn helaeth o waith wrth drefnu gweithgareddau i ennill pwyntiau.</p>	<p>As well as the above a close vote was had in the election of House Captains. Here are the results and good luck to all in the organising of events to win as many point for your house during the year.</p>
<p><u>Dwynwen</u> Olivia Parry Eurgain Hughes</p>	<p><u>Tysilio</u> Joe Owen Anya Carr</p>
<p><u>Tegfan</u> Meilir Jones Beca Williams</p>	<p><u>Deiniol</u> Libbie Hughes Joe Morris</p>

Parcio	Parking
<p>Gawn ni gymryd y cyfle i'ch atgoffa, nad ydych i fod i yrru i mewn i faes parcio staff rhwng 8yb a 3:30yp os gwelwch yn dda. Gofynnwn yn garedig i chi geisio eich gorau i barcio mor daclus a phosib yn yr ardaloedd parcio y tu allan ac ar hyd y lon fel y gall mwy o rieni/ymwelwyr wneud defnydd o hyn.</p>	<p>We would like to take the opportunity in reminding you that you should not drive into the staff car park between 8am and 3:30pm. We also kindly ask that you try to park as neatly as possible in the parking spaces outside and along the road as to increase parking capacity.</p>



YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW



Ffôn/Tel: 01248 713431

Ebost/Email: pennaeth.llandeufan@ynysmon.gov.uk

Safle'r Rhyngwrwyd/Website: <http://ysgolllandeufan.cymru/index.html>

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Llau Pen	Head Lice
Hoffwn eich atgoffa o bwysigrwydd o archwilio gwallt eich plentyn/plant yn rheolaidd gan fod achosion o lau pen yn ymddangos o bryd i'w gilydd. Mae cael gwared â'r broblem hon yn ddibynnod ar gydweithrediad pawb i archwilio gwallt eu plant.	I wish to remind you of the importance of checking your child/children's hair for head lice. From time to time we have cases in school and getting rid of this problem is dependant of everyone checking their child/children's hair regularly.
Hanner Tymor	Half Term
Fe fydd yr ysgol yn cau am wyliau'r hanner tymor Dydd Gwener Hydref 26ain). Fe fydd yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar ôl y gyliau ar Ddydd Mawrth, Tachwedd 6ed.	The school will close for the half term holidays on Friday. (October 26th) The school will re-open for the pupils on Tuesday, November 6th.
Nosweithiau rhieni	Parent's Evening
Eleni rydym yn parhau gyda'r system bwcio amser nosweithiau rhieni ar lein. Golyga hyn y bydd modd i chi logio i fewn a bwcio diwrnod ac amser sydd yn gyfleus i chi o'r dewisiadau sydd ar gael. Hefyd bydd e-bost a tectst gyda'r linc i fynd i mewn i'r system. Peidiwch a phoeni os nad oes gennych fynediad i'r system ar-lein mae modd hefyd bwcio slot drwy 'r ysgol os dymunwch.	This year we are continuing with the online booking system for Parents Evening using the same company as we use to send text messages to parents. You will be able to log on and book your day and time slots which are convenient to you on the listed dates. There will be an e-mail / text with the link that will take you directly to the system. If you do not have access to the internet/online system it is possible to contact the school and we will assist you with booking a slot.
Teams 4 U	Teams 4 U
Mae'n fwrriad gennym i gefnogi 'Teams4U' eleni drwy gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Christmas Shoebox Appeal'. Os hoffech gefnogi'r achos anfonwch eich boccs esgidiau i'r ysgol erbyn Dydd Mercher, 15fed o Dachwedd. Diolch am eich cefnogaeth.	It is our intention to support 'Teams4U' this year by taking part in the 'Christmas Shoebox Appeal' Should you wish to support the cause please return your shoe boxes to school by Wednesday, 15th of November. Thank you for your support.



YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW



Ffôn/Tel: 01248 713431

Ebost/Email: pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk

Safle'r Rhyngwrwyd/Website: <http://ysgolllandegfan.cymru/index.html>

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Tir yr Ysgol	School Grounds
<p>Yn gyntaf hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi fel rhieni am gyd-weithio gyda ni ar y mater o ddisgyblion yn defnyddio tir yr Ysgol wedi 3:15yp. Ar ôl i'n athrawon ryddhau y disgyblion yna mae'n gyfrifoldeb arnoch chi fel rhieni/gwarchodwyr i sicrhau eu diogelwch yn dilyn hyn hyd yn oed os ydych yn disgwyl yn y car neu yn gadael iddynt gerdded adref.</p>	<p>Firstly I would like to take the opportunity to thank you as parents for your co-operation in working with us on the matter of using the school grounds after 3:15pm. After our teachers have released the pupils, then it is the parent/carer's responsibility for the safety of their children even if you decide to stay in the car or wish for them to walk home if your child is in KS2.</p>
Presenoldeb	Attendance
<p>Atgoffwr mai 96% yw targed presenoldeb yr Ysgol eleni. Bydd lefel presenoldeb eich plant yn cael ei fonitro yn ofalus ac pe bai pryder yn codi byddwn yn cysylltu i drefnu cyfarfod.</p>	<p>Reminder that the school's attendance target is 96%. Your child's attendance will be closely monitored and if a concern rises then we will be contacting you to arrange a meeting.</p>
Clwb Gofal 8yb	Care Club 8am
<p>Atgoffwr fod cost mynychu Clwb Gofal bore rhwng 8 a 8:25 yn codi i £1 y plentyn eleni. Ni fydd gostyngiad ar gyfer teuluoedd gyda mwy na dau ddisgybl. Mae hyn wedi bod yn weithredol ers y 4ydd o Fedi ac felly hoffwn i chi gofio hyn cyn gyrru eich plant i mewn cyn 08:25. Noder – byddwn yn codi tal llawn arnoch os yw eich plentyn wedi cyrraedd y clwb ar unrhyw adeg cyn 08:25.</p>	<p>Reminder that the cost to send your child to the care club running between 8am and 8:25 is now £1 a pupil, and no reduction will be given for families with more than 2 children. We kindly ask that you remember about the raising in costs, before sending your child in to any session. Please note that we will have to charge you the full amount regardless of how close it is to the 08:25 cut off.</p>
Clwb Brecwast	Breakfast Club
<p>Os yw eich plant yn cyrraedd tir yr ysgol ar ôl 08:25 ond cyn 08:45 a heb oruchwyliaeth oedolyn yna disgwyl i'ch plentyn fynd i mewn i fynychu'r clwb brecwast sydd am ddim. Ni fyddwn yn gallu gadael disgybl allan ar yr iard hyd 08:45 oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch.</p>	<p>If your child arrives in school after 08:25 but before 08:45 and unaccompanied it is expected that they attend breakfast club which is free. We will not be allowing pupils to stay on the yard to wait until 08:45 because of Health and Safety reasons.</p>
Cinio Ysgol	School Dinners
<p>Mae'r Cyngor wedi penderfynu codi cost cinio ysgol i £2.40 y diwrnod yn awr, sef £12 yr wythnos. Mae hyn yn weithredol o'r diwrnod cyntaf eleni. Hoffwn eich atgoffa yn y fan hyn ein bod hefyd yn dilyn polisi y cyngor o dalu o flaen llaw am unrhyw ginio Ysgol ac y bydd yn rhaid i ni sicrhau fod arian wedi ei dalu cyn darparu cinio ysgol ar gyfer eich plant. Noder yma ein bod yn eich hannog i ddefnyddio y system 'School Gateway' i dalu am unrhyw ddyled gyda'r ysgol.</p>	<p>The council have decided to raise the cost of School dinners to £2.40 a day / £12 a week. This has been in effect from the first day back in September. We would also like to remind parents that we are following the Council's policy regarding paying for school dinners and therefore will be keeping to the requirement for dinners to be paid in advance in order for your child to receive school dinners on any given day. We also suggest that you use the 'School Gateway' online system to pay any money to the school.</p>



**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**



Ffôn/Tel: 01248 713431

Ebost/Email: pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk

Safle'r Rhyngrwyd/Website: <http://ysgolllandegfan.cymru/index.html>

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

'Rydym erbyn hyn wedi dechrau ein blwyddyn addysgol newydd a hoffwn ddymuno'n dda i'n holl ddisgyblion ar y gwaith caled sydd o'u blaenau eleni. Diolchwn o flaen llawn am eich cydweithrediad chi gyda pob agwedd o fywyd yr Ysgol.

We have now started our new academic year and I would like to wish all of our students the best of luck with all the hard work that is in front of them. I also thank you in advance for your support in all aspects of school life.

Yr Eiddoch yn Gywir

Mr D Hood
Pennaeth